

Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Meilyr Rowlands
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	ChiefInspector@estyn.gov.uk
Rhif Ffôn / Tel No:	02920 446 446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	7 Chwefror 2020
Pwnc / Subject:	Cymwys ar gyfer y dyfodol

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Cyflwyniad

Mae Estyn yn cytuno'n gryf y dylai unrhyw gymwysterau yn y dyfodol a gymerir yn 16 oed gysylltu â'r cwricwlwm newydd i Gymru, a'i gefnogi, a bod yr holl gymwysterau sy'n cael eu datblygu'n benodol i Gymru ar gael i ddysgwyr yn Gymraeg a Saesneg. Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig i Cymwysterau Cymru sicrhau bod canolfannau yn cynnig ystod o gymwysterau deg a chydlynus ar gyfer yr holl ddysgwr. Am fod addysg yng Nghymru yn mynd trwy gyfnod o ddiwygio sylweddol, rydym yn cytuno bod buddion cadw'r enw brand TGAU yn gorbwysio unrhyw ddiffygion. Byddai cadw'r brand yn helpu cynnal hyder y cyhoedd yn ystod cyfnod o newid sylweddol. Dylai unrhyw gymwysterau newydd gefnogi gweithredu'r cwricwlwm newydd. Nid ydym o'r farn y dylai medrau ehangach gael eu hasesu mewn cymhwyster annibynnol newydd a chytunwn fod gan y Dystysgrif Her Sgiliau y potensial i ddarparu'r profiadau a'r cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu'r medrau meddwl yn feirniadol a medrau eraill sy'n bwysig i addysg bellach a dysgu gydol oes.

Egwyddorion arwain i helpu llywio'r cynnig cymwysterau

Yn adran 5 y ddogfen ymgynghori, rydym yn amlinellu set o egwyddorion arweiniol yr ydym yn cynnig eu defnyddio wrth benderfynu pa gymwysterau a gymerir yn 16 oed sy'n gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus.

Dylai Cymwysterau Cymru gymryd camau i sicrhau bod cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus, ac a gymerir yn 16 oed, gysylltu â'r cwricwlwm newydd i Gymru, a'i gefnogi. I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig hwn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ansicr

Mae Estyn yn cytuno'n gryf y dylai unrhyw gymwysterau yn y dyfodol a gymerir yn 16 oed gysylltu â'r cwricwlwm newydd i Gymru, a'i gefnogi. Dylai'r cymwysterau hyn fod yn berthnasol hefyd a darparu llwybrau clir i ddysgwyr symud ymlaen at lwybrau academaidd, technegol a galwedigaethol ôl-16. Disgwylwn y byddai hyn yn golygu gweithio agos rhwng Cymwysterau Cymru, Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil er mwyn sicrhau bod cysylltiad cydlynus rhwng cymwysterau a ddatblygir ar gyfer y cwricwlwm newydd a'r dirwedd addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO) newydd.

Dylai Cymwysterau Cymru ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff dyfarnu sicrhau bod yr holl gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus, ac a gymerir yn 16 oed, ar gael yn Gymraeg a Saesneg. I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig hwn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ansicr

Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.

(Yn eich ymateb efallai yr hoffech ystyried a) Y buddion a'r heriau i chi neu'ch sefydliad a b) Unrhyw amgylchiadau penodol pan na ddylid defnyddio'r egwyddor hon).

Mae Estyn yn cytuno'n gryf y dylai'r holl gymwysterau sy'n cael eu datblygu'n benodol i Gymru fod ar gael i ddysgwyr yn Gymraeg a Saesneg. Rydym yn cytuno hefyd, lle mae cymwysterau wedi'u datblygu yn rhywle arall, ond eu bod yn gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus yng Nghymru, y dylai Cymwysterau Cymru sicrhau bod gyrff dyfarnu'n eu cynnig yn y ddwy iaith. Er mwyn cynyddu argaeledd rhai cymwysterau, yn enwedig cymwysterau galwedigaethol yn Gymraeg, gall fod angen i Cymwysterau Cymru ystyried cymhellion pellach i wneud iawn am farchnad lai.

Mae'n hanfodol bod yr holl gymwysterau'n cael eu cynnig yn ddwyieithog i fodloni angen polisi 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr' Llywodraeth Cymru. Mae'n hanfodol bod adnoddau dwyieithog yn cael eu cynhyrchu a'u rhyddhau ar yr un pryd, gan fod hyn wedi achosi pryder ymhlith athrawon sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Lle nad yw adnoddau ar gael yn y ddwy iaith ar yr un pryd, gall hyn effeithio ar lwyth gwaith athrawon.

Dylai fod dewis priodol o gymwysterau, ar draws lefelau gwahanol ac yn Gymraeg a Saesneg, i fodloni anghenion yr holl ddysgwyr, a chyfle i sicrhau cydbwysedd tecach o ddarpariaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer dysgwyr 16 oed yng Nghymru.

Byddai'n ddefnyddiol hefyd ystyried sut rydym yn gwneud y system yn un sy'n ymateb i anghenion a nodwyd gan ddarparwyr addysg. Lle mae canolfannau'n nodi bwlch mewn cymwysterau neu gymhwyster nad yw wedi'i ddylunio yng Nghymru, i Gymru, a allai fod yn briodol i ddi-ddordebau ac anghenion eu dysgwyr, rydym yn datblygu proses glir ar gyfer archwilio sut y nodir bod y cymhwyster yn un cymwys ac yn trefnu ei fod ar gael i ddysgwyr mewn modd amserol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ddysgwyr sy'n agored i niwed mewn unedau cyfeirio disgyblion, er enghraifft.

Dylai Cymwysterau Cymru reoli'n agosach yr ystod o gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus y gall canolfannau eu cynnig i bobl ifanc 16 oed i sicrhau ei bod yn deg ac yn gydlynol. I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig hwn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
- Anghytuno

- Anghytuno'n gryf
- Ansicr

Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.

(Yn eich ymateb efallai yr hoffech ystyried a) Y buddion a'r heriau i chi neu'ch sefydliad a b) Unrhyw amgylchiadau penodol pan na ddylid defnyddio'r egwyddor hon).

Mae Estyn yn cytuno ei bod yn bwysig i Cymwysterau Cymru sicrhau bod canolfannau'n cynnig ystod o gymwysterau deg a chydlynus. Dylai cymwysterau ar bob lefel fod yn berthnasol i'r cwricwlwm newydd ac yn gyson a'i egwyddorion. Mae angen i gyrff dyfarnu ddangos sut mae cymhwyster yn cysylltu â, ac yn cefnogi, dibenion a nodau'r cwricwlwm newydd wrth geisio sicrhau cymhwysedd ar gyfer arian cyhoeddus.

Un agwedd bwysig ar ddatblygu cymwysterau cydlynus a theg yw ystyried sut gallant ddylanwadu ar addysgu a dysgu. Mae'n destun pryder pan fydd athrawon yn canolbwyntio ar 'addysgu at y prawf' yn bennaf. Mae cymwysterau'n mynd yn wrthgynhyrchiol pan fydd natur ragweladwy asesu a chonfensiynau marcio yn arwain athrawon i ddibynnu'n rhy drwm ar addysgu at y prawf. Gallant ganolbwyntio'n ormodol ar gynghorion a strategaethau byrddau arholi yn hytrach na sicrhau dealltwriaeth, gwybodaeth a medrau gwirioneddol. Mae'n rhaid i ddyluniad cymwysterau yn y dyfodol ddefnyddio ystod o ddulliau asesu priodol a llai rhagweladwy i gefnogi llai o addysgu at y prawf. Yn gyffredinol, dylai trefniadau asesu fod yn hylaw a chadarn. Mae asesiadau'n darparu targedau pendant i lawer o ddisgyblion, ac felly maent yn rhoi cymhelliant gwerthfawr iddynt.

Ar hyn o bryd, mae rhai cymwysterau ar gael y mae modd eu cwblhau mewn llai o lawr o amser cwricwlwm na'r oriau dysgu dan arweiniad datganedig. Rydym yn cefnogi adolygiad o'r cymwysterau hyn yn gryf, yn enwedig i ystyried patrymau a thuueddiadau yn y niferoedd sy'n dilyn y cymwysterau hyn. Mae perygl y caiff y rhain eu hystyried yn gymwysterau 'haws' gyda sgorau pwyntiau uchel ar gael, er nad oes unrhyw asesu allanol.

Wrth i gymwysterau newydd gael eu dylunio, mae'n bwysig cofio eu bod yn debygol o ddylanwadu ar ymddygiadau addysgu. Mae'n ddymunol, felly, i ddylunio cymwysterau sydd nid yn unig yn deg a chydlynus, ond sy'n annog athrawon i ddefnyddio ystod eang o ddulliau addysgu difyr a pherthnasol er mwyn darparu profiadau ystyrlon i ddisgyblion sy'n arwain at ddysgu o ansawdd uchel.

Credwn ei bod yn bwysig sicrhau bod cymwysterau yn gwbl gynhwysol ac yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc i gyd, yn cynnwys y rhai ag AAA neu'r rhai nad ydynt mewn addysgu brif ffrwd i ennill cymwysterau ystyrlon sy'n eu helpu i wneud cynnydd.

**A oes unrhyw egwyddorion eraill y credwch y dylem eu hystyried wrth benderfynu pa gymwysterau i'w gwneud yn gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru?
Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.**

Ar hyd a lled Cymru, mae llawer o ysgolion yn wynebu toriadau yn eu cyllideb ac ystyriaeth bwysig yw cost cymwysterau, adnoddau cysylltiedig a dysgu proffesiynol.

Gall costau cofrestru arholiadau uwch gael canlyniadau anfwriadol ar gyfer dysgwyr, gan y gall ysgolion fod yn fwy amharod i gofrestru disgyblion nad oes sicrwydd y byddant yn cyflawni'n dda. Mae ysgolion yn adrodd eu bod yn wynebu cynnydd yn eu costau cofrestru arholiadau, a bod angen sicrhau bod yr holl gymwysterau yn cynrychioli gwerth da am arian.

Byddai'n fuddiol rhoi rhywfaint o ystyriaeth i ba mor dda y mae cymhwyster yn darparu sylfaen briodol ar gyfer llwybrau dysgu yn y dyfodol. Er enghraifft, byddai'n fuddiol ystyried pa gymwysterau yn 16 oed fyddai'n paratoi dysgwyr yn briodol i symud ymlaen at gyrsiau pellach ôl-16.

Cymwysterau TGAU sy'n addas at y dyfodol

Yn adran 6 o'r ddogfen ymgynghori, rydym yn amlinellu ein cynnig i gadw'r enw TGAU wrth eu hailddylunio fel eu bod yn bodloni'n gweledigaeth ar gyfer cymwysterau ac yn cefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd.

Ar ôl pwyso a mesur, credwn y dylid cadw'r enw TGAU ar gyfer y cymwysterau wedi'u hailddylunio a fydd yn rhan ganolog o'r cymwysterau a gynigir ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru.

I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig hwn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ansicr

Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.

Am fod addysg yng Nghymru yn mynd trwy gyfnod o ddiwygio sylweddol, rydym yn cytuno bod buddion cadw'r enw brand TGAU yn gorbwyso unrhyw ddiffygion, yn y tymor byr a'r tymor canolig o leiaf.

Cymwysterau TGAU yw'r brand cymhwyster mwyaf adnabyddus a sefydledig a gymerir gan ddysgwyr 16 oed yng Nghymru. Mae ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys rhieni, cyflogwyr a phrifysgolion, yn eu deall a'u cydnabod. Byddai cadw'r brand yn helpu cynnal hyder y cyhoedd yn ystod cyfnod o newid sylweddol.

Teimlwn y bydd cadw'r brand TGAU yn galluogi rhywfaint o barhad yn y system addysg mewn cyfnod o newid sylweddol. Gellir addasu cynnwys, fformat ac arddull cymwysterau TGAU i fodloni anghenion dysgwyr heb newid yr enw brand.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cryfhau'r cyfathrebu mewn perthynas â chymwysterau TGAU i egluro mai cymwysterau wedi'u dylunio ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 ydynt, ac nad ydynt wedi'u bwriadu ar gyfer dysgwyr iau (Blwyddyn 9 neu is). Rhaid nodi anfanteision gofyn i ddysgwyr wneud dewisiadau opsiynau ar ddiwedd Blwyddyn 8 yn glir i'r holl ddarparwyr.

A oes gennych unrhyw awgrymiadau penodol ar sut gallai cymwysterau TGAU newid i gyflawni ein gweledigaeth ac i gefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd?

Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.

Yn gyffredinol, mae angen cymwysterau 14-16 o hyd. Credwn y dylai'r cymwysterau hyn gael eu creu i gefnogi'r cwricwlwm newydd. Wrth gyflwyno cymwysterau newydd, dylai Cymwysterau Cymru ystyried unrhyw ganlyniadau anfwriadol ar lwyth gwaith a lles athrawon y gallai newidiadau eu creu os na chânt eu rheoli'n dda, neu os nad oes cyfathrebu digonol neu gymorth amserol. Wrth ddatblygu cymwysterau newydd, dylai Cymwysterau Cymru leihau'r elfen ragweladwy yn y trefniadau asesu er mwyn osgoi'r potensial i athrawon 'ddyfalu amcan' yr asesiad ac addysgu at y prawf.

Yn ei ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y cwricwlwm, pwysleisiodd pa mor bwysig yw hi i Lywodraeth Cymru sefydlu trefniadau atebolrwydd newydd â llai yn y fantol. Mae hyn, ochr yn ochr â chanllawiau clir ar ystod y cymwysterau sydd i'w cynnig neu'u cymryd, yn allweddol i gefnogi'r newidiadau hyn.

Er eu bod wedi asesu medrau ymarferol, yn draddodiadol, nid yw cymwysterau TGAU wedi ymgysylltu at yr agweddau ehangach, mwy galwedigaethol ar ddysgu. Mae angen rhoi ystyriaeth i sut gellir cynnig cymysgedd gwell o gymwysterau galwedigaethol ac academaidd i ddysgwyr 14-16 oed. Mae'r ymgynghoriad yn dweud yn glir nad cymwysterau TGAU fydd yr unig gymhwyster fydd ar gael, ond mae cyfle i ddatblygu cymwysterau TGAU galwedigaethol. Os caiff y cymysgedd hwn o gymwysterau TGAU ei ddwyn yn ei flaen, gallai fod angen gwneud gwaith i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau hyn, a chadw cryfder y brand ar yr un pryd.

Bydd yn bwysig ymgysylltu â'r gweithlu ehangach, gan gynnwys ysgolion a darparwyr ôl-16, wrth ddylunio unrhyw gymwysterau galwedigaethol newydd.

Cymhwyster i asesu sgiliau ehangach

Yn adran 7 y ddogfen ymgynghori, rydym yn amlinellu ein cynnig i gadw cymhwyster penodol sy'n cefnogi datblygu ac asesu'r sgiliau ehangach (fel y'u diffinnir yn y cwricwlwm newydd). Y rhain yw: creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, ac effeithiolrwydd personol.

Ar ôl pwyso a mesur, credwn y dylai cymhwyster penodol sy'n cefnogi datblygu ac asesu'r sgiliau ehangach (fel y'u diffinnir yn y cwricwlwm newydd) fod yn rhan o'r cymwysterau a gynigir ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol

- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ansicr

Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.

Yn gyffredinol, nid ydym o'r farn y dylai medrau ehangach gael eu hasesu mewn cymhwyster annibynnol newydd, a chytunwn fod gan y Dystysgrif Her Sgiliau y potensial i ddarparu'r profiadau a'r cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu neu fireinio'r medrau meddwl yn feirniadol a medrau eraill sy'n bwysig i addysg bellach a dysgu gydol oes, a chefnogi ymgorffori'r pedwar diben.

Yn gyffredinol yn y gorffennol, lle mae medrau ehangach wedi'u hasesu trwy gymwysterau annibynnol, mae'r cymwysterau hyn wedi derbyn adborth gwael gan ddisgyblion ac athrawon oherwydd ailadrodd a llwyth gwaith. Byddai cyflwyno cymwysterau newydd, penodol i gefnogi datblygu ac asesu'r holl fedrau ehangach yn mynnu newid ymagwedd sylweddol yn y sector addysg. Mae asesu medrau ehangach disgyblion yn bwysig, ond ceir potensial am ganlyniadau anfwriadol os ystyrir bod y cymwysterau yn rhai llai trwyadl, yn enwedig os oes cyfran fawr o asesiadau heb arholiad. Mae'r ymgynghoriad yn cydnabod nad yw adeiladu ar y Dystysgrif Her Sgiliau fel y cyfrwng i asesu'r medrau ehangach yn atal y medrau hyn rhag cael eu hymgorffori mewn cymwysterau eraill hefyd. Bydd yn bwysig ystyried sut gallai cymwysterau newydd gyfrannu hefyd at asesu defnydd pobl ifanc o fedrau ehangach mewn cyd-destunau gwahanol.

Mae priodoleddau sy'n rhan o'r pedwar diben, fel creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, ac effeithiolrwydd personol yn anodd eu mesur. Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i b'un a ddylai'r elfennau hyn gael eu hasesu ac os felly, sut. Dylai'r graddau y mae gwaith ymarferol, yn cynnwys gwaith grŵp/tîm, yn cyfrannu at ddeilliannau cymwysterau gael ei adolygu. Dylai'r agweddau hyn gyfrannu at ddeilliannau cymwysterau presennol, lle y bo'n briodol.

A oes gennych unrhyw awgrymiadau penodol ar sut gallai'r Dystysgrif Her Sgiliau yng nghyfnod allweddol 4 newid i gyflawni ein gweledigaeth a chefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd?

Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.

Mae gan y Dystysgrif Her Sgiliau y potensial i ddarparu'r profiadau a'r cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu neu fireinio'r medrau meddwl yn feirniadol a medrau eraill sy'n bwysig i addysg bellach a dysgu gydol oes, a chefnogi ymgorffori'r pedwar diben. Fodd bynnag, er gwaethaf llawer o gryfderau, mae ei strwythur presennol a'r trefniadau asesu wedi arwain at ailadrodd a gorasesu'r heriau ar draul datblygu medrau ehangach. Bu gormod o ddyblygu yn y Dystysgrif Her Sgiliau ac mae disgyblion yn adrodd nad ydynt bob amser yn glir ynglŷn â diben gweithgareddau.

Mae addysgu'r heriau medrau yn mynnu set wahanol o fedrau i'r rheiny sydd eu hangen i addysgu cymwysterau TGAU eraill. Mewn mwyafrif o ysgolion, mae

athrawon yn deall sut i drefnu gwaith prosiect disgyblion ac yn cynllunio'n addas i ddefnyddio medrau disgyblion. Fodd bynnag, mae gallu a hyder athrawon wrth ddatblygu medrau ehangach disgyblion yn rhy amrywiol. Mae angen i unrhyw newidiadau i'r Dystysgrif Her Sgiliau i'w gwneud yn fwy apelgar i ddisgyblion ac i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru, gael eu cefnogi â dysgu proffesiynol priodol ar gyfer athrawon sy'n ei chyflwyno. Er enghraifft, trwy ddatblygu partneriaethau cryfach gyda chyflogwyr, colegau a darparwyr hyfforddiant yn y gymuned leol, gallai ysgolion wella medrau creadigol, entrepreneuriaidd a chyflogadwyedd dysgwyr trwy greu cyd-destunau a phrofiadau go iawn, dilys ar gyfer dysgwyr.

Asesiadau effaith

Yn ein Hasesiad Effaith Integredig, rydym wedi nodi'r effeithiau rheoleiddiol yr ydym yn eu rhagweld o'r cynigion hyn.

Wrth ymateb i'r cwestiynau canlynol, gwnewch yn glir pa gynnig/gynigion rydych chi'n cyfeirio ato/atynt.

A oes unrhyw effeithiau rheoleiddiol pellach a allai ddeillio o unrhyw un o'n cynigion? Os felly, eglurwch eich ateb yn y gofod isod.

Y Gymraeg

- Bydd yn bwysig bod yr holl ganolfannau yn sicrhau bod trefniadaeth y cwricwlwm yn galluogi disgyblion i wneud a chynnal cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau Cymraeg.

Ystyriaethau eraill

- Mae'n bwysig cydnabod bod maint y newid mewn addysg yn sylweddol a bod angen rheoli hyn yn ofalus. Er enghraifft, mae'n debygol o fod yn arbennig o sensitif mewn ysgolion uwchradd llai lle gallai un athro fod yn gyfrifol am gynllunio a chyflwyno un neu ddau o bynciau ar draws nifer o gyfnodau allweddol.
- Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r effaith ar ddarparwyr ôl-16 wrth gynllunio'r pontio a'r dilyniant at Safon Uwch, llwybrau galwedigaethol a thechnegol.
- Bydd cyfathrebu â rhanddeiliaid a chefnogaeth gan randdeiliaid, gan gynnwys rhieni, yn ystyriaeth bwysig yn ystod y cyfnod newid.
- Hefyd, mae angen ystyriaeth o'r modd y mae cymwysterau wedi'u gosod yn y trefniadau gwerthuso ac atebolrwydd newydd

A oes unrhyw gamau ychwanegol y gallem eu cymryd i leihau effaith reoleiddiol unrhyw un o'n cynigion? Os felly, eglurwch eich ateb yn y gofod isod.

- Byddai angen rhoi ystyriaeth bellach i effaith newidiadau i'r Dystysgrif Her Sgiliau ar ôl-16.

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar effaith reoleiddiol y cynigion hyn?

Os felly, eglurwch eich ateb yn y gofod isod.

Yn ein Hasesiad Effaith Integredig, rydym wedi ystyried yr effeithiau posibl ar y Gymraeg a maes Cydraddoldeb.

Wrth ymateb i'r cwestiynau canlynol, gwnewch yn glir pa gynnig/gynigion rydych chi'n cyfeirio ato/atynt.

A fyddai unrhyw un o'n cynigion yn arwain at unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill (bwriadol neu anfwriadol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

- Effaith gadarnhaol
- Dim effaith
- Effaith negyddol
- Ansicr

Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.

Credwn fod y potensial gan y cynigion hyn i gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, yn enwedig o ran sicrhau dewis o gymwysterau sy'n deg, cydlynus a dwyieithog ar gyfer yr holl ddysgwyr 16 oed.

A fyddai unrhyw un o'n cynigion yn arwain at unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill (bwriadol neu anfwriadol) mewn perthynas â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg?

- Effaith gadarnhaol
- Dim effaith
- Effaith negyddol
- Ansicr

Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.

- Fel uchod

A fyddai unrhyw un o'n cynigion yn arwain at unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill (bwriadol neu anfwriadol) ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010?

- Effaith gadarnhaol
- Dim effaith
- Effaith negyddol
- Ansicr

Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.

Mae'n rhaid i'r cynigion sicrhau bod ystod addas o gymwysterau ar gael i ddisgyblion o bob gallu, a bod digon o ddewis, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol.

Os oes gennych unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y wybodaeth a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori hon, defnyddiwch y gofod isod.